O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2022 Rhif 103 (Cy. 36)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twneli Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Chwefror 2022* |
| *Yn dod i rym* | *11 Chwefror 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twneli Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Chwefror 2022.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 11 Chwefror 2022 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o’r gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A40 Casnewydd i Gaerwrangon;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Gwaharddiadau a chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar gerbytffordd tua’r dwyrain na cherbytffordd tua’r gorllewin y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**4.**—(1) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua’r dwyrain gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 8, nad yw’n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua’r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn lôn allanol cerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua’r dwyrain.

(2) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua’r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 8, nad yw’n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua’r dwyrain, ni chaiff neb yrru

---

(**1**) Amnewidiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

unrhyw gerbyd yn lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**8.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal dros dro**

**9.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Chwefror 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwrthlif**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 800 metr i'r de o borth Twneli Gibraltar hyd at bwynt tua 50 metr i'r gogledd o borth y Twneli.

**ATODLEN 2**
**Gwahardd cerbydau dros dro**

Y darn o lôn ymwahanu'r A40 tua'r gogledd hyd at y B4293 Portal Road.

Y darn o ffordd ymadael tua'r de yr A40 hyd at ei chyffordd â'r rhan ddwyffordd o'r B4293 Beech Road.

**ATODLEN 3**
**Terfyn cyflymder 30 mya dros dro**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A466 signalau traffig Pont Afon Gwy hyd at bwynt 2.25 o gilometrau i'r de o'r gyffordd honno.

**ATODLEN 4**
**Terfyn cyflymder 50 mya dros dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 4.2 o gilometrau i'r de o'i chyffordd â'r A466 signalau traffig Pont Afon Gwy hyd at bwynt 2.25 o gilometrau i'r de o'r signalau traffig hynny.